Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Sustrans

4 Ebrill 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mawrth, pan wnaethoch ofyn:

> *I would like the following information please,*
>
> *Are any relatives of WAG Ministers and AMs paid employees of*
>
> 1. *Sustrans*
> 2. *Size of Wales.*

Gweler ein hymateb isod.

O dan adran 36 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006** a **Rheol Sefydlog 2**, mae'n ofynnol i'r Senedd gadw a chyhoeddi Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau. Mae cofrestr pob un o'r 60 Aelod ar gael ar ein gwefan - **Cofrestr Buddiannau'r Aelodau**. Y categori penodol sy'n gysylltiedig â'ch cais yw *Categori 2: Cyflogaeth, swydd, proffesiwn ayyb am dâl.*

Dyma linc i'r canllawiau hefyd er gwybodaeth i chi: **Canllawiau i Aelodau o'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau ariannol a buddiannau eraill**.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Mater i Lywodraeth Cymru yw cofrestru gwybodaeth Gweinidogion. I wneud cais am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru, anfonwch e-bost at: **Rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru**.


Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.**

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF